PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD IAU, 28 GORFFENNAF 2022

PRESENNOL Cynghorydd W.T. Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

P. Cooper	E. Skinner

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

S.M. Allen	J.M. Charles	T. Davies	N. Evans
J.K. Howell	J.D. James	J.P. Jenkins	A.C. Jones
M.J.A. Lewis	D. Owen	B.D.J. Phillips	R. Sparks
G.B. Thomas	M. Thomas		

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):

J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (Aman Gwendraeth)
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
A. Eynon, Prif Gyfieithydd
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd [Cymerwr Cofnodion]

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):

I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio
H. Rice, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu
Z.A. Evans, Uwch-dechnegydd [Cyswllt Cynllunio]
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Aml Leoliad - Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP ac o bell:
10.00 - 11.05 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr T. Davies, M. Donoghue a D.E. Williams. [Sylwer: Wedi hynny ymunodd y Cynghorydd T. Davies â'r cyfarfod am 10.46 o'r gloch].

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

3. PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO.

PENDERFYNWYD:

3.1 **Caniatáu'r ceisiadau cynllunio isod yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod.**

3.2 **Rhoi awdurdod dirprwyedig i swyddogion yn yr Adran Gynllunio ddiwygio amod 3 o PL/03743, os oes angen, yn unol â'r sylwadau a wnaed gan yr Awdurdod Tai mewn perthynas â rheoli a chynnal a chadw'r unedau, am byth.**

W/40669	**Newid defnydd tŷ allan amaethyddol yn lladd-dy bach ar y fferm ar dir sy'n rhan o Little Burrows Farm, Talacharn, Caerfyrddin, SA33 4RS.**
PL/03743	**Addasu lle swyddfa (Dosbarth B1) yn 12 o fflatiau preswyl hunangynhwysol ynghyd â mân welliannau allanol a symud y llefydd parcio i'r anabl, 5-8 Heol Spilman, Caerfyrddin, SA31 1LE.** Cyfeiriwyd at sylwadau a gyflwynwyd gan yr Awdurdod Tai yn dilyn cyhoeddi dogfennau'r cyfarfod, a oedd yn rhoi eglurhad am reoli a chynnal a chadw'r unedau, am byth.

4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR

4.1. 23AIN MEHEFIN, 2022;

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi ei gynnal ar 23 Mehefin, 2022, gan eu bod yn gywir.

4.2. 5ED GORFFENNAF, 2022.

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi ei gynnal ar 05 Gorfennaf, 2022, gan eu bod yn gywir.

_____ _____

CHAIR **DATE**